## Ffeithiau Allweddol a Thelerau ac Amodau i fyfyrwyr sy'n derbyn Cynigion Cyrsiau (Amser Llawn)

**(Ceisiadau Medi 2020 am gyrsiau Breiniol Prifysgol De Cymru)** – Diweddarwyd ym mis Chwefror 2020.

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys gwybodaeth bwysig ynghyd â thelerau ac amodau sy'n gysylltiedig â'r cynnig a waned i chi gan Goleg Gŵyr Abertawe. Gwnewch yn siŵr eich bod wedi darllen a deall y wybodaeth bwysig ganlynol:

## Costau:

### Ffioedd Dysgu a Benthyciadau Myfyrwyr

Y Ffioedd Dysgu ar gyfer y cwrs yw **£7500**. Trwy dderbyn y cynnig hwn a chofrestru ar y cwrs, rydych yn cytuno i dalu'r ffi hon ar gyfer pob blwyddyn o'ch cwrs. Os ydych chi'n fyfyriwr yn y DU neu'r UE, gallwch wneud cais am fenthyciad ffioedd dysgu i dalu am eich ffioedd dysgu. Ar gyfer myfyrwyr sy'n hanu o Gymru, darllennwch Ganllawiau Cyllid AU Coleg Gŵyr Abertawe cyn mynd ati i wneud cais am gyllid yma.

Mae'r trefniadau ar gyfer benthyciadau myfyrwyr yn amrywio o ranbarth i ranbarth:

Ar gyfer myfyrwyr sy'n hanu o Gymru, ewch i https://www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/
Ar gyfer myfyrwyr sy'n hanu o Loegr, ewch i https://www.gov.uk/student-finance.
Ar gyfer myfyrwyr sy'n hanu o'r Alban, ewch i http://www.saas.gov.uk.
Ar gyfer myfyrwyr sy'n hanu o Ogledd Iwerddon, ewch i http://www.studentfinanceni.co.uk.

Bydd angen ichi ddewis **Prifysgol De Cymru** pan fyddwch chi'n gwneud cais am fenthyciad myfyrwyr. Gofynnir ichi hefyd ddewis **£7500** fel ffi ddysgu, ni waeth ble rydych yn byw. Os nad ydych yn gwneud cais am ffioedd dysgu a/neu grant ffioedd dysgu, mi fyddwch yn derbyn anfoneb gan y Coleg am y ffioedd dysgu llawn. Mae bwrsari'r Coleg (gweler gwybodaeth amdano isod), yn cael ei ddyfarni gan Goleg Gŵyr Abertawe. Ni fydd y bwrsari yn lleihau eich ffioedd dysgu.

### Os Oes Angen Ichi Dynnu'n Ôl O'ch Cwrs

Byddwch yn gymwys i gael ffioedd dysgu am bob tymor yr ydych wedi eich cofrestri gyda ni. Rhaid ichi roi gwybod i ni yn syth os ydych yn bwriadu tynnu'n ôl o'ch cwrs. Gwneir taliadau ffioedd dysgu gan Gyllid Myfyrwyr mewn tri rhandaliad: 25% yn nhymor 1; 25% yn nhymor 2 a'r 50 % sy'n weddill yn nhymor 3. Os ydych am dynnu'n ôl o'ch cwrs hanner ffordd drwy'r tymor, fe fyddwch yn atebol am ffi gyfan y tymor hwnnw. Ni fydd Cyllid Myfyrwyr yn talu unrhyw fenthyciad ffioedd ar ôl i chi dynnu'n ôl.

### Bwrsari Coleg Gŵyr Abertawe

Mae'r Coleg yn cynnig Bwrsari ar gyfer pob blwyddyn i fyfyrwyr AU sy'n astudio rhaglen freiniol neu raglen sydd wedi'i ddilysu gan Sefydliad Addysg Uwch (Prifysgol). Gweler y meini prawf a manylion pellach yma.

## Costau Ychwanegol Cyrsiau

Mi fydd rhai cyrsiau yn cynnwys costau ychwanegol felly mae angen ichi fod yn ymwybodol o hyn cyn derbyn y cynnig hwn. Gweler gwybodaeth am gostau ychwanegol cyrsiau isod:

HND – Busnes a Chyfrifeg
BA – Astudiaethau Busnes
Gradd Sylfaen - Cyfiawnder Troseddol

Gradd Sylfaen – Animeiddio Gweledol a Graffeg Symudol
Gradd Sylfaen – Gwyddorau Dadansoddol a Fforensig
Gradd Sylfaen – Dysgu a Datblygu Addysg
Tystysgrif Graddedig mewn Addysg (TAR)
Tystysgrif Broffesiynol mewn Addysg Professional Certificate in Education (AHO)

## Y Cymhwyster Byddwch yn ei Astudio a'r Dyfarniad

Prifysgol De Cymru sy'n gyfrifol am greu'r cymhwyster (PDC).

**Cyfrifoldebau'r Coleg a'r Brifysgol:**

Wrth gychwyn y cwrs, bydd gofyn ichi gofrestru gyda Choleg Gŵyr Abertawe a PDC.

**Polisïau Academaidd gan gynnwys Apeliadau, Camymddwyn a Chwynion (PDC)**

PDC sy'n gyfrifol am bob polisi academaidd. Mae'r rheoliadau ar gyfer cyrsiau a addysgir ar gael yma. Mae'r gweithdrefnau cwynion ac apeliadau academaidd ar gael yma. Ni all fyfyrwyr wneud apêl academaidd dan bolisïau Coleg Gŵr Abertawe, gan mai PDC sy'n dyfarnu'r cymhwyster ac yn gweithredu'r rheoliadau perthnasol.

**Addysgu a Chyfrifoldebau Dydd i Ddydd, gan gynnwys Cwynion ac Apeliadau Anacademaidd**

Coleg Gwyr Abertawe fydd yn gyfrifol am addysgu a'r cyfrifoldebau dydd i ddydd, ac eithrio unrhyw fodiwlau a ddarperir ar gampws PDC. Mi fydd cwynion ac apeliadau sy'n ymwneud â materion anacademaidd fel arfer yn cael eu trin dan Weithdrefn Gwyno Coleg Gŵyr Abertawe, sydd ar gael yma. Os nad ydych yn fodlon gyda chanlyniad eich ymholiad, gallwch alw i ddefnyddio Polisi Cwynion Myfyrwyr PDC, sydd ar gael yma.

**Cod Ymddygiad a Gweithdrefnau Disgyblu Myfyrwyr**

Wrth ichi gofrestru gyda'r Coleg a chyda PDC, fe fyddwch yn cytuno i gydymffurfio â chodau ymddygiad y ddau sefydliad. Os na fyddwch yn gwneud hyn, efallai y bydd camau disgyblu'n cael eu gweithredu yn eich erbyn. Gallwch gael gafael ar God Ymddygiad Coleg Gŵyr Abertawe yma. Mae Gweithdrefn Disgyblu Myfyrwyr Coleg Gŵyr Abertawe yma. Mae Polisi Disgyblu Myfyrwyr PDC (Camymddwyn Anacademaidd) ar gael yma

## Amrywiadau'r Cyrsiau:

### Cyrsiau sy'n Destun Dilysu

Rhaid i gyrsiau a hysbysebir fel rhai sy'n destun dilysu fynd drwy broses gymeradwyo PDC, cyn y gellir eu cyflwyno gan Goleg Gwyr Abertawe. Er ei bod hi'n anhebygol, mae'n bosibl na fydd y cwrs yn cael ei gymeradwyo. Os bydd hyn yn digwydd, mi fydd y Coleg yn cynnig lle i chi ar gwrs gwahanol neu'n gweithio gyda chi i ddod o hyd i gwrs gwahanol a gyflwynir gan ddarparwr arall. Mewn rhai achosion, bydd Teitlau'r Cyrsiau yn cael eu newid ynghyd â Newidiadau i'r Modiwlau, gweler gwybodaeth am hyn isod.

### Teitl y Cwrs, Math y Cymhwyster neu Newidiadau i'r Modiwlau

Mi fydd y Coleg yn rhoi gwybod ichi am unrhyw newidiadau neu ddarpar newidiadau i'r cwrs rydych wedi gwneud cais amdano, gan gynnwys pethau megis teitl eich cwrs, newidiadau i fodiwlau'r cymhwyster, ac yn y blaen. Os yw ymgeisydd yn penderfynu tynnu ei gais yn ôl o ganlyniad i unrhyw newidiadau a gafodd ei hysbysu amdanynt ar ôl cyflwyno ei gais, mi fydd y Coleg yn gweithio gydag ef/hi i ddod o hyd i gwrs arall gyda'r Coleg/darparwr arall.

### Canslo Cwrs

Er bydd y Coleg yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y cwrs rydych wedi gwneud cais amdano yn mynd yn ei flaen, mae gan bob cwrs isafswm o gofrestriadau er mwyn gallu sicrhau ei fod yn gallu gweithredu'n hyfyw. Os na fydd y gofynion hyn yn cael eu diwallu, efallai bydd yn rhaid i'r Coleg neu PDC ganslo'r cwrs. Os bydd yn rhaid gwneud hyn, bydd y Coleg yn cynnig lle i chi ar gwrs gwahanol neu'n gweithio gyda chi i ddod o hyd i gwrs arall gyda darparwr arall.

## Gwybodaeth Arall:

### Graddio

Mae mynychu unrhyw ddigwyddiadau graddio a seremonïau yn ddewisol, a ni fydd yn rhaid ichi fynychu digwyddiadau o'r fath er mwyn derbyn eich cymhwyster. Byddwch yn derbyn gwahoddiad i Seremonïau Graddio PDC a Choleg Gŵyr Abertawe.

### Dyled Academaidd

Os ydych chi'n methu â thalu ffioedd dysgu eich cwrs, gall Goleg Gŵyr Abertae neu PDC ddal eich tystysgrif yn ôl nes eu bod wedi eu talu'n llawn.